



## **Ysgol Gymraeg Bro Ogwr – Canllawiau Dysgu Cyfunol**

### **Cyflwyniad**

Bu Ysgol Gymraeg Bro Ogwr yn llwyddiannus wrth ddarparu tasgau a gweithgareddau i ddysgwyr yn ystod cyfyngiadau symud COVID-19, a hynny gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau, platfformau ac adnoddau. Wrth inni symud ymlaen yn awr drwy'r flwyddyn academaidd newydd, mae'r ysgol yn bwriadu estyn ei darpariaeth rhag ofn y ceir cyfyngiadau symud pellach neu os bydd grwpiau blwyddyn yn gorfod hunan-ynysu am bod prawf positif wedi cael ei gofnodi yn y grŵp cyswllt. Bydd y ddarpariaeth estynedig yn cynnwys cynnig ffrydiad byw rheolaidd i gadw mewn cysylltiad a gosod y cywair / cyflwyno'r gwaith ar gyfer y diwrnod sydd i ddod. Sesiwn ddyddiol i gadw mewn cysylltiad fydd hon ond gan ddibynnu ar drefniadau hunan-ynysu grwpiau blwyddyn neu drefniadau i gau'r ysgol gallai hon ddigwydd ar adegau gwahanol bob dydd i gynorthwyo sibliogiaid i gael mynediad at y sesiwn cadw mewn cysylltiad a sicrhau hyblygrwydd ar gyfer amgylchiadau'r cartref i allu ymuno. Pe bai'n digwydd ar unrhyw adeg bod sibliogiaid sydd â mynediad at un ddyfais yn unig wedi cael eu gwahodd i ymuno â'u sesiwn cadw mewn cysylltiad ar yr un amser yna'r rhieni fydd yn dewis pwy sy'n ymuno â'i sesiwn.

Mae'r canllawiau proffesiynol yn glir y dylai unrhyw ffrydio byw gael ei hwyluso ar sail gwbl wirfoddol – ni ddylid ac ni fwriedir rhoi cyfarwyddyd i staff ffrydio gwersi'n fyw. Fodd bynnag, bydd y canllawiau hyn yn darparu sail gref i gefnogi'r athrawon hynny sy'n dymuno ymgorffori elfen o ddysgu cydamserol fel rhan o'u darpariaeth.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn argymhell y dylai'r holl wersi a gaiff eu ffrydio'n fyw gael eu cynnal gan ddefnyddio Microsoft Teams drwy Hwb, y dylai'r athro/athrawes ddefnyddio dyfais a roddwyd gan yr ysgol ac y dylid rhoi sylw dyladwy i ystyriaethau diogelu a chydarddoldeb, gan gynnwys argaeledd dysgwyr ar amser a bennwyd rhag blaen, ac ystyried a oes gan yr holl ddysgwyr le priodol yn y tŷ i gyfranogi ohono. Mae diogelu a lles dysgwyr o'r pwys mwyaf ac yn cael blaenoriaeth dros yr holl ystyriaethau eraill. Dylai polisïau a gweithdrefnau ar gyfer hysbysu ynghylch digwyddiadau camddefnydd gael eu dilyn bob amser. Mae dyletswydd ar athrawon i hysbysu ynghylch plant sy'n wynebu risg (gan gynnwys cam-drin ar-lein) dan adran 130 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Os oes ganddynt unrhyw bryderon ynghylch plentyn sy'n ymwneud â diogelu, byddant yn trafod y rhain gyda'r Uwch Swyddog Dynodedig Amddiffyn Plant gan sicrhau yr hysbysir ynghylch pryderon cyn gynted â phosibl.

Bydd y canllawiau hyn ar sesiynau cydamserol yn cael eu hadolygu ym mis Ionawr 2021, gydag ystyriaeth ddyladwy i brofiadau hyd at y dyddiad hwnnw ac unrhyw ddiwygiadau'n cael eu gwneud yn ôl yr angen. Wrth gwrs, os bydd gofyn gwneud unrhyw ddiwygiadau sylweddol cyn y dyddiad hwn, yna bydd y canllawiau'n cael eu hadolygu fel y bo'n briodol.

### **Canllawiau ar gyfer ffrydio sesiynau'n fyw**

#### **Paratoi**

Bydd paratoi a chynllunio'n hanfodol i sicrhau sesiwn ffrydio byw ddiogel a llwyddiannus. Dylai diben, manteision a chyfyngiadau sesiwn ffrydio byw gael eu hystyried cyn penderfynu a oes dull arall sy'n fwy priodol, h.y. efallai y byddai recordiad ar sgrîn yn fwy addas.

Rhaid ystyried cynulleidfa'r dysgwyr. Bydd sesiynau oedran-briodol yn cael eu darparu ac nid yw dysgu cydamserol yn briodol i ddysgwyr o bob oed. Bydd digon o rybudd yn cael ei roi i ddysgwyr a rhieni/gofalwyr ynghylch sesiynau sydd wedi'u cynllunio. Rhaid ystyried nifer y dysgwyr ym mhob sesiwn; felly, bydd pob sesiwn ar gyfer dosbarth penodol. Efallai y bydd neu na fydd llawer o ddysgwyr yn gallu ymuno â'r sesiwn ar yr amser a gynlluniwyd ac efallai y byddant yn cael mynediad at y gwaith ac yn cwblhau'r gwaith ar adegau gwahanol, felly mae sesiwn ragarweiniol yn fwy addas, gyda chymorth ar-lein gan yr athrawon dosbarth trwy gydol y dydd os oes angen. Os yw'n debygol y bydd mynediad anghyfartal oherwydd materion cysylltedd, materion caledwedd, gofalu am sibliogiaid neu unrhyw reswm arall, mae angen ystyried fformatau eraill ar gyfer gwersi.

Byddir yn gofyn am gytundeb defnydd priodol a fydd yn nodi disgwyliadau clir ar gyfer cyfranogwyr ar gyfer yr holl ddysgwyr sy'n dymuno cyfranogi mewn sesiynau ffrydio byw.

## **Logisteg Gwersi**

Dylid annog dysgwyr i weithio o leoliad a rennir sy'n addas o fewn eu cartref lle maent yn teimlo'n gysurus, gyda rhiant/gofalwr yn gwmni iddynt os oes modd. Ni fydd pob dysgwr yn awyddus i droi ei gamera ymlaen a dylai rhannu fideo fod yn ddewisol. Bydd disgwyl i bob dysgwr gynnal yr un safon ymddygiad ag yn yr ystafell ddosbarth a bydd yr athrawon dosbarth yn ymdrin ag unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio. Gallai hyn arwain at dynnu mynediad at y ddarpariaeth gydamserol yn ôl dros dro, os ceir achosion bwriadol o dorri'r cytundeb dysgwr dro ar ôl tro.

Dylai cymwysiadau meddalwedd sy'n ofynnol gael eu hwyluso trwy blatfform Hwb. Dylai athrawon sicrhau eu bod yn ffrydio o leoliad niwtral sy'n briodol ac yn ddiogel. Dylai dysgwyr ddewis amgylchedd cefndir niwtral hefyd, lle y bo'n bosibl. Rydym yn ymwybodol ei bod yn anorfod y bydd peth sŵn cartref yn y cefndir gyda phartneriaid, siblingiaid, plant ac anifeiliaid anwes yn y cartref. Argymhellir bod cydweithwyr addysgu'n defnyddio clustffonau gyda meicroffon (fel y rhai sydd ar gael gyda llawer o ffonau symudol) er mwyn eglurder sain a bydd y rhain yn cael eu darparu gan yr ysgol ar gyfer staff sy'n dymuno defnyddio'r rhain.

Wrth gwrs, bydd cydweithwyr addysgu'n ymlynu wrth safonau gwisg proffesiynol pan fyddant o flaen y camera. Bydd wastad **o leiaf ddau aelod o staff addysgu** ar-lein ac yn bresennol bob amser yn ystod unrhyw sesiwn ffrydio byw; os bydd angen i unrhyw aelod o staff adael y sesiwn, bydd angen dod â'r sesiwn i ben a'i gohirio tan rywbryd yn ddiweddarach. Nid yw gwersi ffrydio byw un-i-un gyda dysgwyr yn cael eu hargymell mewn canllawiau proffesiynol ac felly nid ydynt yn cael eu hystyried dan y canllawiau hyn ar gyfer Ysgol Gymraeg Bro Ogwr. Ar ddiwedd sesiwn, bydd y sesiwn yn cael ei therfynu ar gyfer yr holl gyfranogwyr, gan sicrhau nad yw dysgwyr yn cael eu gadael ar eu pennau eu hunain a heb oruchwyliaeth mewn sesiwn y mae'r athrawon wedi'i gadael. Ni fydd sesiynau ffrydio byw'n cael eu recordio gan athrawon na dysgwyr. Os yw athrawon yn bwriadu recordio gwers i'w rhannu gyda dysgwyr yn ddiweddarach, dylid gwneud hyn fel gweithgaredd anghydamserol heb i unrhyw ddysgwyr fod yn bresennol yn y recordiad. Ni fydd recordiadau'n cael eu defnyddio at unrhyw ddibenion gwerthuso athrawon. Ni chaniateir sgrin-luniau na ffotograffau o sesiynau a gaiff eu ffrydio.

Bydd dysgwyr yn cael eu hatgoffa ar ddechrau pob sesiwn ynglŷn â sut i ryngweithio a sut i godi pryderon, fel y bo'n briodol a byddant yn cael eu hannog i ddefnyddio'r swyddogaeth sgwrsio'n briodol i alluogi ymgysylltu a rhyngweithio strwythuredig i ddigwydd.

## **Gwerthuso ac Adolygu**

Bydd cydweithwyr a dysgwyr yn cael eu cynorthwyo i drafod eu profiadau o gyfranogi mewn sesiynau cydamserol a byddant yn cael eu hannog i rannu arfer da. Bydd adborth yn cael ei geisio gan rieni/gofalwyr a bydd hefyd yn cael ei ystyried mewn unrhyw adolygiad o'r canllawiau hyn.

Bydd canllawiau o ffynonellau proffesiynol yn cael eu monitro, i sicrhau bod darpariaeth yr ysgol yn gyson â chanllawiau proffesiynol a bod unrhyw newidiadau i feddalwedd neu ddiweddariadau i feddalwedd yn cael eu hymgorffori yn y ddarpariaeth.

## **Camau Nesaf**

A fyddech cystal â darllen drwy'r canllawiau hyn a'r cwestiynau cyffredin isod. Wedyn anfonir dolen atoch i gwblhau holiadur ar-lein ynglŷn â chynnig sesiynau a gaiff eu ffrydio.

Cofion gorau  
Sharon Jayne  
Pennaeth

Nik Dart  
Cadeirydd y Llywodraethwyr

## **Cwestiynau Cyffredin**

### **1. Beth os yw dysgwr yn ymuno â'r dosbarth o leoliad amhriodol neu os yw wedi gwisgo'n amhriodol?**

Yn ddelfrydol, byddai dysgwyr yn mewngofnodi i'r dosbarth o ardal gymunedol yn eu cartref. O dan rai amgylchiadau, gallai hyn roi baich afresymol ar y manau sy'n cael eu defnyddio gan y teulu. Dylai staff asesu pob sefyllfa, a thrafod gyda'r Uwch Swyddog Dynodedig Amddiffyn Plant neu'r Pennaeth os ydynt yn anghyfforddus â'r lleoliad(au) y mae dysgwyr yn mewngofnodi ohono/ohonynt. Dylai dysgwyr gydymffurfio â'r cytundeb ffrydio byw i wisgo'n briodol ar gyfer sesiwn.

### **2. Beth os yw dysgwr yn siarad neu'n ymddwyn yn amhriodol mewn gwrs ffrydio byw?**

Mae'r holl safonau ymddygiad arferol yn berthnasol yn yr ystafell ddosbarth ar-lein. Er na fydd dysgwyr mewn amgylchedd ystafell ddosbarth arferol, lle bo modd, dylid ymdrin â materion a fydd yn codi yn yr un ffordd ag y byddid wedi ymdrin â hwy petai'r un peth wedi digwydd mewn amgylchedd ystafell ddosbarth arferol. Mae dogfen gweithdrefn rheoli ymddygiad yr ysgol wedi cael ei diweddarau i gynnwys darpariaeth gydamserol.

### **3. Beth os yw dysgwr yn rhannu rhywbeth amhriodol ar ei sgrîn?**

Gall athrawon anfon dysgwyr allan o'r sesiwn os ydynt yn ymddwyn yn amhriodol. Os bydd rhywbeth amhriodol yn cael ei rannu ar y sgrin, dylai athrawon ddod â'r sesiwn i ben cyn gynted â phosibl a chodi'r mater gyda'r Uwch Swyddog Dynodedig Amddiffyn Plant. Yna, gellir cysylltu â'r holl ddysgwyr a oedd yn yr ystafell cyn gynted â phosibl ar ôl y digwyddiad i egluro beth ddigwyddodd, a beth yw'r trefniadau ar gyfer dosbarthiadau yn y dyfodol. Yn unol â'r canllawiau diogelu, rhaid i'r ymarferydd addysg ysgrifennu cofnod llawn yn y ffordd arferol.

### **4. Beth os oes ar athro neu athrawes/dysgwr angen hyfforddiant ar ddefnyddio Microsoft Teams?**

Bydd hyfforddiant yn cael ei ddarparu ar gyfer athrawon/dysgwyr yn ôl y gofyn.

### **5. Beth os oes ar athro neu athrawes/dysgwr angen help gyda dyfais neu'r rhyngwyd?**

Dylai athrawon/rhieni/dysgwyr yn y sefyllfa hon gysylltu â'r ysgol yn uniongyrchol i drafod eu hamgylchiadau unigol a bydd cymorth yn cael ei roi fel y bo'n briodol.

### **6. A oes rhaid i'm plentyn gyfranogi mewn sesiwn ffrydio byw?**

Rydym yn amcanu at gynorthwyo'r holl ddysgwyr sy'n dymuno cyfranogi i allu gwneud hynny. Fodd bynnag, mae sesiynau ffrydio byw'n ddewisol a gall rhieni/gofalwyr ddewis optio allan o sesiynau ffrydio byw. Bydd yr holl waith / tasgau a gyflwynir a / neu a drafodir yn ystod y sesiwn ffrydio byw ar gael drwy Hwb i ddysgwyr gael mynediad atynt, i sicrhau nad yw dysgwyr nad ydynt yn dymuno neu nad ydynt yn gallu cyfranogi yn y sesiynau ffrydio byw yn cael eu rhoi dan anfantais. Gall athrawon ddewis darparu esboniad fideo o dasg yn lle ffrydio byw hefyd, os yn briodol.

## **Sesiwn Ffrydio Byw – Dysgwyr yn Optio i Mewn neu'n Optio Allan**

Os hoffai eich plentyn gyfranogi mewn sesiynau ffrydio byw yn y dyfodol, byddwn yn gofyn i chi gadarnhau trwy holiadur ar-lein. Os oes unrhyw resymau amgylcheddol, technegol neu logistaidd yr hoffech eu trafod gyda ni, anfonwch neges e-bost i'r ysgol ar [admin.broogwr@bridgend.gov.uk](mailto:admin.broogwr@bridgend.gov.uk) a byddwn ninnau mewn cysylltiad i drafod y rhain ymhellach. Sylwer y gallwch optio i mewn neu optio allan ar unrhyw adeg trwy ein hysbysu ynghylch y cais hwn drwy'r e-bost.

## **Sesiwn Ffrydio Byw – Cytundeb Dysgwr**

Os hoffai eich plentyn gyfranogi mewn sesiynau ffrydio byw yn y dyfodol, byddwn yn gofyn i chi gadarnhau eich bod wedi trafod y pwyntiau canlynol gyda hwy a'ch bod yn cytuno y byddant yn cydymffurfio â'r canllawiau hyn. Sylwer y gallwch optio allan unrhyw bryd.

### **Mae dysgwyr yn cytuno i wneud y canlynol:**

- bod yn brydlon ar gyfer pob sesiwn a bod wedi mewngofnodi i'r sesiwn yn barod erbyn yr amser dechrau
- bod ag unrhyw ddeunyddiau angenrheidiol wrth law (gwybodaeth am y rhain i gael ei rhoi cyn y sesiwn os oes angen)
- gwneud yn siŵr bod yr holl addaswyr trydan a dyfeisiau'n barod ganddynt
- dangos parch tuag at bawb yn yr ystafell ddosbarth ar-lein
- gwisgo'n briodol ar gyfer pob dosbarth, gan feddwl am barch tuag at eraill
- sicrhau bod y lleoliad y maent yn mewngofnodi ohono'n briodol, h.y. rhoi ystyriaeth i'r cefndir, ongl y camera, preifatrwydd a.y.b.
- ceisio cyfrannu at y dosbarth mewn modd cadarnhaol a pheidio â tharfu ar unrhyw adeg
- peidio â recordio na ffotograffio'r sesiwn a pheidio â rhannu delweddau o'r dosbarth ar unrhyw adeg ar unrhyw blatfform
- gwrando ar gyfarwyddiadau'r athro/athrawes bob amser
- defnyddio'r botwm 'distewi' tra bo'r athro/athrawes yn siarad
- defnyddio'r offeryn llaw neu sgwrs i ofyn cwestiwn